| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Chwefror 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| Testun | Treth y Cyngor 2025/26 a Materion Cysylltiedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2025 bydd y Cyngor yn pennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo penderfyniadau ychwanegol ar ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pennu lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn y modd a ragnodir yn gyfreithiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, yn ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref a Chymuned ac yn cyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

3.2. Bod y symiau y mae'r Cyngor wedi'u cyfrifo ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn unol ag Adrannau 32 i 34(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel y'u cyflwynir yn Atodiad A, adran 3.

3.3. Bod y symiau y mae’r Cyngor wedi’u cyfrifo ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn unol ag Adrannau 34(2) i 36(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel y’u cyflwynir yn Atodiad A, adran 4.

3.4. Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y’u cyflwynir yn Atodiad C.

3.5. Y pennir lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarthiadau A, B ac C fel y rhagnodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ar yr amod na fydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu’r amgylchiadau’n lleol.

## 4. Manylion yr adroddiad

Oherwydd y gofyniad i gymeradwyo'r penderfyniad a’r argymhellion yn y modd a ragnodwyd, cyflwynir manylion yr adroddiad yn Atodiad A.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os na chymeradwyir yr argymhellion, bydd y Cyngor yn methu cyflwyno biliau Treth y Cyngor ac felly ni fydd yr incwm angenrheidiol i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Telir y gost o gyflwyno a dosbarthu hysbysiadau Treth y Cyngor o’r adnoddau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Cynhaliwyd asesiad lles ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn rhan o’r broses gyllidebol a bu’n rhan o Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol a luniwyd yn rhan o bapurau’r gyllideb a gyflwynwyd i’r Cyngor Llawn wrth ystyried y gyllideb a Threth y Cyngor.

## 8. Pa ymgyngoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb y mae’r Cyngor yn ei phennu. Yn ogystal â’r adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, trafodwyd proses y gyllideb gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio’r Cabinet, gan Arweinwyr

Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio’r Cyngor. Mae’r Fforwm Cyllideb Ysgol hefyd wedi’i gynnwys mewn trafodaethau ynghylch y cynigion gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy’r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae’r rheoliadau’n rhagnodi’r modd y dylid gwneud hyn ac mae’r adroddiad hwn yn bodloni’r gofynion hynny.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu’n uchel a chedwir golwg fanwl arnynt gydol y flwyddyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.